**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR IONAWR 3ydd, 2023**

**Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.**

**Yn bresennol** Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd), Cyng. Ceri Jones, Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Mark Davies, Cyng. Rob Jones, Cyng. Llŷr Evans, Cyng. Carol Davies, Cyng.Sian Williams

Croesawyd Jill Lowry i sôn am ei gwaith am Lwybrau Cyhoeddus, a dymunodd y Cyng. Maldwyn Lewis Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Clerc** Rhian Jones

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1 . Ymddiheuriadau . | DIM<br><br>Nid oedd Cyng Teifi Evans na'r Cyng Roger Davies yn bresennol ac nid oeddynt wedi anfon ymddiheuriadau. | | |
| 2. Cyflwyniad gan Swyddog Llwybrau Cynhoeddus | Mae Jill Lowry yn gwithio i Gyngor Sir Ceredigion fel Swyddog Llwybrau Cyhoeddus. Mae 3 prif swyddog ar y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ac Osian Jones sydd yn cynrychioli De Ceredigion. Nododd fod 2700km o lwybrau ar draws y Sir, gyda 800km yng Ngwaelod y Sir. Ar hyn o bryd dim ond tua 60% ohonynt sydd yn agored, oherwydd diffyg cyllid. Maent yn ddibynnol ar grantiau a chyfraniadau wrth gymdeithasau. Mae ganddynt gynllun 'Mabwysiadu Llwybr', lle gall y cyhoedd wirfoddoli trwy dorri drain/llwyni, casglu sbwriel ayyb. er mwyn cadw cymaint o'r llwybrau hyn yn agored.<br>Mae ganddynt gynllun "Donate a Gate", lle gall y cyhoedd boed yn unigolyn neu grŵp gyfrannu gîat, e.e fel cof am rhywun. Bydd plac yn cael ei osod arni.<br>Maent yn gosod arwyddion ar y llwybrau i sicrhau bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn.<br>Nodwyd fod map wedi ei osod tu allan i Neuadd Coedybryn yn dangos Llwybrau'r ardal, ac efallai gall y Tîm tramwy cyhoeddus gynorthwyo i'w cynnal. ( angen danfon llun iddynt o'r map).<br>Maent fel Tîm yn annog Iechyd a Llês, ond yn pwysleisio pwysigrwydd cadw at y llwybrau a gofalu am greaduriaid byw a sicrhau bod cŵn ar dennyn bob amser.<br>Mae grŵp Cerddwyr yn Rhydlewis sy'n defnyddio'r llwybrau'n rheolaidd, ac mae angen gwaith ar agor y llwybr o Rhydlewis at Penlan. | | |
| 3. Cofnodion | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Rhagfyr. Cynigiodd y Cyng Sian Williams fod y cofnodion yn gywir ac eiliodd y Cyng Mark Davies. Roedd pawb oedd yn bresennol yn gytun. | | |

| | |
|---|---|
| 4. Materion yn Codi | ( angen i'r Clerc ychwanegu at gofnodion mis Rhagfyr am y broblem gyda'r cerrig mân tu allan Neuadd Ffostrasol ). |
| 5. Datgan Diddordeb | Dim |
| 6. Adroddiad y Cynghorydd Sir | Nododd y Cyng. Maldwyn Lewis am y broblem diffyg dŵr sydd wedi bod yn yr ardal .Roedd problem gyda'r cyflenwad yn Llechryd o Byllau Teifi. Bu'n rhaid cau gwahanol falfiau i geisio ail lenwi'r gronfa Ddŵr. Bu Ben Lake yn ogystal â'r Cynghorydd lleol Maldwyn Lewis yn arbennig yn ymateb i'r broblem. Diolchwyd hefyd i bawb a gynorthwyodd trwy ddosbarthu poteli dŵr i'r trigolion lleol. Roedd holl bentrefi'r ardal yn hynod o ffodus fod y cyflenwad dŵr wedi ei adfer cyn y Nadolig.<br><br>Braint oedd cael Llongyfarch gwraig lleol am dderbyn Rhagoriaeth Cenedlaethol fel Nyrs. Derbyniodd Llinos Davies o Ffostrasol wobr ' Liz Baker Excellence in Renal Nursing award'. Bydd y Clerc yn anfon llythyr i'w llongyfarch. |
| . | |
| 7. Gohebiaeth | Nodwyd fod Grant gan CAVO ar gyfer Hyfforddiant Cymorth Cyntaf o fewn y gymuned. Trafodwyd y byddai cynnal sesiynnau Cymorth Cyntaf syml o fudd yn y gymuned.<br><br>Mae Ymgynghoriad ynghlŷn a dyfodol adeiladau'r Cyngor. Gan fod nifer o weithwyr y Cyngor bellach yn gweithio o adref, mae niferoedd o ystafelloedd gwag yn yr adeiladau presennol. Nodwyd fod modd archebu desg ar gyfer gweithio os dymunent. Mae yna gyfle i leiso barn am ddefnydd pellach i'r adeiladau. |
| 8. Cynllunio | A220906 – Popplars, Rhydlewis.<br>Garej driphlyg ar ei phen ei hun. ( Dim gwrthynebiad mewn egwyddor). |

9. Ariannol

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau** | HMRC - £86.80 (PAYE) Nov & Dec | 001688 |
| | Cyflog y Clerc - £347.60 Nov & Dec | 001687 |
| | Neuadd Coedybryn £40.00 | 001689 |

Cytunodd pawb oedd yn bressenol i ni dalu'r anfonebau ac arwyddodd Y Cyng Ceri Jones a'r Cyng Sharon Thomas y sieciau.

Nododd y Cyng Mark Davies fod y Rheolydd pensiwn wedi rhoi tystysgrif am y flwyddyn.

**Praesept** – Trafodwyd fod angen cyllid eleni ar gyfer bocsys Defib newydd yn Ffostrasol a Coedybryn.
Bydd angen boscys blodau i harddu'r pentrefi, ond angen erych ar brisau a deunyddiau gwahanol o focsys.
Bydd angen offer TGCh newydd ar y Clerc – Argraffydd a 'External Hard-drive'

Cynigiodd y Cyng Emyr Jones roi cais am £10,000, ac eiliodd y Cyng Sian Williams.
Cynigiodd y Cyng Mark Davies y byddai o fudd i'r gymuned i gyfrannu £1,000 ar helpu cynnal y Llwybrau cynhoeddus, ac eiliodd y Cyng Llŷr Evans. ( Nodwyd y byddai'r cyfraniad at gynnal llwybrau yng Nghymuned Troedyraur yn unig).
Cynhaliwyd pleidlaid ac roedd 6 Cynghorydd yn cytno ar £11,000. Gwnaeth Y Cyng Emyr Jones a Sian Willams ymatal eu cynnig, ac roedd y cynnig o £11,000 yn cario. (Cytunwyd fod y £1,000 ychwanegol at y Llwybrau Cyhoeddus).

Cytunodd pawb oedd yn bresennol i gyfrannu £200 at Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis. ( y Clerc i baratoi llythyr i anfon gyda'r siec mis nesaf).

10. Materion Ardal

Angen trefnu ar What's App pryd fydd pawb ar gael i gynorthwyo i dynnu'r coed Nadolig i lawr yn y pentrefi. Oherwydd diogewlwch penderfynnwyd byddai'n well bod sawl un yn helpu, a byddai angen cymryd gofal wrth dynnu'r goleadau a sicrhau eu bod yn cael eu sychu cyn rhoi i gadw.

Cynigiwyd fod y Clerc yn anfon llythhyr i Longyfarch Adran Cynradd Ysgol Bro Teifi ar eu sioeau Nadolig llwyddiannus, gan fod nifer o blant y gymuned yn cymryd rhan.

**FFOSTRASOL** - Mae'r lampau stryd yn gweithio yn iawn bellach.

Cynhelir bore coffi yn Tafarn Ffostrasol Dydd Sadwrn Ionawr 7fed rhwng 10:00 – 12:00 i godi arian at NICU Abertawe, Uned Gofal dwys i fabanod. Trefnwyd gan Ffrindiau Ffostrasol a'r Cylch, oherwydd fod teulu o'r pentref wedi defnyddio'r Uned yn ddiweddar.

**COEDYBRYN**- Derbyniwyd Diolchiadau gan y gymuned am y Goeden a'r goleadau.

**RHYDLEWIS** - Dim

**CROESLAN** - drws y bocs ffôn dal yn beryglus.

Mae bocs halen ger rhiw Tegfan SA44 4SS wedi diflannu. Mae angen bocs newydd. (CLIC)

**BRONGEST** – Dim

**BWLCHYGROES –** Mae'r bocs grit ger Penllwybr ( y ffordd o'r Capel tuag at La Calabria) yn wâg. Cysylltu trwy CLIC

11. Cyfarfod Nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 7fed o Chwfror am 7.30yh yn Neuadd Bentref Rhydlewis.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.40yh

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgan diddordeb<br>Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br><br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Taliadau<br>Trafod Cyflog y Clerc<br>Materion Ardal –<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |